# ASESIAD ANEDDIADAU CYNALIADWY

This document is available in English
Mae’r dogfen hon ar gael yn Saesneg

## CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r Asesiad Aneddiadau Cynaliadwy yn sefydlu fframwaith sy'n seiliedig ar dystiolaeth i nodi pa aneddiadau ym Mlaenau Gwent sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu ar gyfer twf yn y dyfodol o dan y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (2018–2033). Mae'r fethodoleg yn seiliedig ar y dull arfaethedig a nodir ym Mhapur Arfarnu Aneddiadau Cynaliadwy (SSAP) drafft Grŵp Braenaru Grŵp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru (SEWSPG). Mae hyn yn ceisio nodi methodoleg gyffredin ar gyfer arfarniadau aneddiadau cynaliadwy i'w defnyddio ar draws rhanbarth De-ddwyrain Cymru. Fodd bynnag, mae rhai elfennau o'r fethodoleg wedi'u haddasu i sicrhau ei bod yn berthnasol i Flaenau Gwent sydd wedi’i nodweddu gan drefi dyffryn gyda rhai cymunedau gwledig bach.

Mae'n gwerthuso rôl, swyddogaeth a chynaliadwyedd cymharol deg anheddiad trwy gymhwyso methodoleg strwythuredig sy'n canolbwyntio ar dair egwyddor graidd:

1. Trafnidiaeth Gynaliadwy a Hygyrchedd,
2. Argaeledd Cyfleusterau a Gwasanaethau,
3. Cyfleoedd Cyflogaeth.
   Mae'r egwyddorion hyn yn cael eu pwysoli i adlewyrchu blaenoriaethau cynllunio cenedlaethol—yn fwyaf nodedig y pwyslais cryf ym Mholisi Cynllunio Cymru (PPW10) ar leihau dibyniaeth ar geir a chreu cymunedau cynaliadwy a chysylltedig.

### Pwrpas a Dull

Nod yr asesiad yw hyrwyddo patrwm gofodol cynaliadwy o dwf, gan sicrhau bod datblygiad yn cefnogi teithio llesol, mynediad at wasanaethau hanfodol, economïau lleol cryf, a llai o all-gymudo.

Er mwyn cyflawni hyn, mae'r ddogfen:

- Yn archwilio cyfleusterau, gwasanaethau a chyfleoedd cyflogaeth lleol (arolwg 2019).
- Yn cymhwyso system sgorio feintiol ar draws y tair egwyddor (40% trafnidiaeth, 30% gwasanaethau, 30% cyflogaeth).
- Yn ystyried dangosyddion cyd-destunol fel poblogaeth, strwythur oedran, defnydd o’r Gymraeg, tai, a hunangynhwysiant.
- Cynhyrchu hierarchaeth aneddiadau sy'n llywio strategaeth datblygu yn y dyfodol.

# Canfyddiadau Allweddol

## 1. Perfformiad Anheddiad

Mae'r hierarchaeth ganlynol o aneddiadau yn y Fwrdeistref Sirol wedi'i nodi:

**Haen 1: Anheddiad Cynradd**

- **Glynebwy (86.4%)** – canolfan fwyaf cynaliadwy a strategol y Fwrdeistref Sirol, gyda'r sgôr uchaf ym mhob egwyddor. Mae'n elwa o gysylltiadau trafnidiaeth aml-foddol cryf (gan gynnwys rheilffordd), gwasanaethau helaeth, cyfleusterau addysg ac iechyd, a safleoedd cyflogaeth mawr.

**Haen 2 – Prif Aneddiadau**

- **Brynmawr / Nant-y-glo / Blaenau (79%)**
- **Abertyleri (gan gynnwys Cwmtyleri a Chwe Chloch) (78.5%)**
- **Tredegar (77.9%)**
  Mae'r aneddiadau hyn yn cynnig gwasanaethau sylweddol, cyfleoedd cyflogaeth amrywiol, a hygyrchedd cymharol gryf. Maent yn gweithredu fel canolfannau gwasanaeth a masnachol allweddol ar gyfer cymunedau'r dyffryn.

**Haen 3 – Aneddiadau Eilaidd**

- **Cwm (57%)**
- **Aber-bîg / Brynithel / Llanhiledd (53%)**
  Er bod yr aneddiadau hyn yn cynnig rhai cyfleusterau ac yn elwa o agosrwydd at ganolfannau mwy, mae ganddynt hunangynhwysiant is a darpariaeth gwasanaeth fwy cyfyngedig.

**Aneddiadau Haen Isaf (Haenau 4–5)**

- **Swfrydd (30.7%)**
- **Trefil (13.7%), Pochin (21.1%), Pyllau Bedwellte (16.8%)**
  Nid oes gan y cymunedau bach hyn seilwaith, gwasanaethau a chyfleoedd cyflogaeth hanfodol, a’r rhain sydd leiaf addas i ddarparu ar gyfer twf sylweddol.

# 2. Mewnwelediadau Cyd-destunol

- **Dosbarthiad poblogaeth:** Mae Glynebwy yn cynnwys 30% o boblogaeth y Fwrdeistref Sirol, ac yna Tredegar (22%) a Brynmawr/Nant-y-glo/Blaenau (21%).
- **Demograffeg:** Mae proffiliau oedran yn amrywio, gyda Swfrydd yn arbennig o iau ac Aber-bîg/Brynithel/Llanhiledd yn hŷn ar gyfartaledd.
- **Y Gymraeg:** Mae'r defnydd yn isel (cyfartaledd sir o 7.8%), gydag ychydig o amrywiad rhwng aneddiadau.

- **Tai:** Mae tai teras yn dominyddu; fforddiadwyedd uchaf yn Abertyleri a'r isaf yn Swfrydd.
- **Cyflogaeth:** Glynebwy sy'n arddangos yr hunangynhwysiant cryfaf (34%), sy'n adlewyrchu ei rôl fel canolfan gyflogaeth.

## 3. Goblygiadau i'r CDLl Newydd

Mae'r asesiad yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer llunio **strategaeth twf sy'n seiliedig ar aneddiadau.** Mae'n cefnogi:

- **Cyfeirio twf i'r aneddiadau mwyaf cynaliadwy, cysylltiedig** (Haen 1 a Haen 2).
- **Blaenoriaethu buddsoddiad** mewn seilwaith, gwasanaethau, ac adfywio lle bydd yn cael yr effaith strategol fwyaf.
- **Amddiffyn aneddiadau llai** gyda gwasanaethau cyfyngedig rhag datblygiad a allai gynyddu dibyniaeth ar geir neu straen ar gapasiti lleol.